**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL RITHIOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 19/11/2020 AM 7.00pm**

**1. CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL:** Mervyn Botwwod; Sonia Fletcher; Y Gyngh. Clare Hughes; y Gyngh. Angharad Jones; y Gyngh. Laura Jones; Y Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies, y Cyngh. Gareth Owen, Cyngh Doug Rowbotham & Eleri Thomas (Clerc).

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd Y Cyngh. John Jones; Y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd), y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Wil Lewis (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd), y Cyngh. Alun Price-Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhynghrwyd) a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
**Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol John Evans** dros y ffon na fu unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol, byrgleriaeth, niwed troseddol, dwyn na throseddau trais, yn ystod y mis diwethaf. O ran yr ymosodiad ar unigolyn ifanc ar brif bont y Pentref adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Evans nad oedd tyst annibynnol wedi gwneud datganiad.

**5**. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'i ddatgelu.

**6**. **CADARNHAU CYFARFOD O'R 29ain O Hydref 2020**
**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Angharad Jones), **EILIWYD** (Y Gyngh. Clare Hughes) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod y 29ain o Hydref 2020, yn gywir. Arwyddir y Cofnodion fel rhai cywir, gan y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen pan fydd amgylchiadau'n caniatau.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Diweddariad: Ymateb y Cyngor Cymunedol i her Y Coronafirws;**
Anogodd y Cyngor Cymuned unigolion i fod yn wyliadwrus ac i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru.

**7.2 Cynnal a Chadw Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen**
Arddangoswyd poster wrth fynedfa'r parc yn cynnwys argymhellion ar gyfer defnyddwyr y parc yn ymwneud â Covid-19.

**7.3 Glan-yr-Afon:** parthed tanc olew, nododd ymateb gan G.S. Ceredigion nad oedd y tir a leolwyd y tanc arno, ar dir comin cofrestredig ac ni ellid canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg drwy'r ardal. Nid oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir. Cyfrifoldeb perchennog /rheolwr y tir yw trefnu gwaredu â'r tanc olew a thrafod materion tresmasu os dymunir. *Adroddwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf bod y perchennog sef Mr Alan Phillips wedi cysylltu â Marika sydd wedi crybwyll y bydd Malcolm yn symud y tanc*. *Dim datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn.*

**7.4 Aelodaeth o Bwyllgorau o fewn y Pentref:** Dim adroddiadau ar gynnig yn ystod y cyfarfod hwn.

**7.5 Trwsio'r fainc, Ffair Rhos**: y Cyngh. Gareth Owen a'r Cyngh. John Jones i glustnodi sylw i gyflwr y fainc**. Dim Datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn**. Ni gytunwyd yn ystod y cyfarfod cynt i geisio mainc newydd.

**7.6 Torri Gwair o gwmpas y pentref dros fisoedd yr haf**: Adroddwyd bod toriadau wedi'u hymwneud gan Mr D Benjamin ar ran y Cyngor Cymuned.
Roedd angen torri glaswellt ar y ffordd, y tu allan i Neuadd Pantyfedwen ac ardaloedd ar Ystad Maesydderwen: adroddwyd at sylw Cyngor Sir Ceredigion sydd eisoes wedi torri'r glaswellt.

7.7 **Adroddwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol** bod coed wedi gordyfu yng Nglan-yr-Afon. Cytunwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw i gysylltu ag Adnoddau Naturiol Cymru i geisio grantiau i osod llwybr cerdded yng nghyffiniau Glanyrafon gan arwain at y Bont Werdd. Anfonodd Adnoddau Naturiol Cymru *Bwletin Newydd Cyllideb* a oedd yn rhestru fynonellau cyllid y gellid ymchwilio iddynt.

7.8 **Gwasanaeth Sul y Cofio: 8.11.2020:** i gofio'r rhai a syrthiodd ac a anafwyd yn ystod gwrthdaro milwrol. **PENDERFYNWYD** peidio cynnal gwasanaeth Sul y Cofio eleni o ystyried cyfyngiadau Covid-19. Yn hytrach, gwahoddwyd trigolion i gadw 2 funud o osteg am 11am y tu allan i'w heiddo, pan fyddai'r biwglwr John Jenkins yn chwarae'r *Last Post* ger y Gofeb Rhyfel. Diolchwyd i'r Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen a'r Cadlywydd y Cyngh. John Jones am osod torch ger y Gofeb Rhyfel y Bont ar Ddydd Sul yr 8fed o Dachwedd 2020 ar ran y Cyngor Cymuned ac am ddarllen enwau'r syrthiedig. Roedd 18 o unigolion wedi ymgynnull ger Gofeb Rhyfel y Bont, er yr hysbyswyd y cyhoedd na fyddai'r gwasanaeth arferol yn bwrw ymlaen; arsylwyd ar fesurau pellhau cymdeithasol. Cytunwyd i ddiolch i John Jenkins, Lledrod am ymwneud â rôl biwglwr, unwaith eto, eleni. Caniatawyd aelodau'r cyhoedd i osod torch ger y Gofeb Rhyfel yn ystod Sul y Cofio gan arsylwi ar fesurau pellhau cymdeithasol.

7.9 **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**: yn ceisio diweddaru holl diffibrilwyr lleol a gofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned i archwilio cyflwr y diffibrilwyr a'u uwchlwytho i'r Gylchdaith. https//www.thecircuit.uk. Holwyd am yr *App* ar gyfer Ceredigion. Cytunwyd i ddarganfod ble roedd diffibrilwyr wedi'u lleoli'n y Gymuned. Y Cyngh. Gareth Owen i ymwneud â'r dasg.

7.10 **Roedd y Gynghorydd Clare Hughes wedi adrodd yn y cyfarfod blaenorol fod Mrs Nel Jones** wedi holi mewn perthynas â'r llwybr cerdded, a oedd yn arwain o'r ysgol i Ffair Rhos. Roedd Mrs Jones wedi tynnu sylw Cynghorwyr at y llwybr cerdded hwn yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019 ac wedi adrodd bod angen sylw ar 3 camfa. Cysylltwyd â Mr Haydn Lewis, Adran yr Arfordir a Chefn Gwlad, Cyngor Sir Ceredigion. Adroddodd Mr Lewis ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa a byddai'r gwaith wedi'i gyflawni eleni oni bai am y Pandemig Covid-19. Y nod yw atgyweirio'r camfeydd ym 2021. **CYTUNWYD:** Y Gyngh. Clare Hughes i gyfleu'r wybodaeth i Mrs Nel Jones.

## 8. GOHEBIAETH

8.1 **Arolwg Parthau Diogel Canol Trefi i'w weld ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.** Mae diddordeb gan y Cyngor Sir mewn barn Cynghorau Cymuned a Thref Ceredigion. Mae'r holl fanylion i'w gweld drwy fynd at:
https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/
Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau tan 21ain Rhagfyr 2020.

8.2 **Mae Llywodraeth Cymru'**n gwahodd Awdurdodau a Chynghorau Lleol (Tref a Chymuned) i gynnig am gyllid o'i cronfa newydd o £13.2m i gefnogi, atgyweirio ac ailddefnyddio gweithgareddau, ynghanol trefi. Bydd hyn yn anelu at ymgais Cymru am economi gylchol ac i gefnogi ailadeiladu Cymru ar ôl cyfnod Covid19. Amlygwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r llinyn hwn o waith ymhellach gan gefnogaeth Hannah Blythyn MS (Dirprwy-Weinidog Tai a Llywodraeth Leol), yn ogystal â "Maniffesto ar gyfer Cenhedloedd y Dyfodol" y Comisiynydd newydd ei gyhoeddi, sy'n cynnwys mentrau fel caffis atgyweirio, siopau cyfnewid, fel rhan o'r weledigaeth ar gyfer dinasoedd llewyrchus Cymru. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 1af Rhagfyr 2020. **Cytunwyd: Y Gyngh. Clare Hughes i glustnodi sylw pellach i'r uchod mewn ymgais i gwrdd â chostau sy'n gysylltiedig â ffens y parc.**

8.3 **Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda** yn cynnal arolwg ymgysylltu i baratoi Asesiad Anghenion Fferyllol fydd yn bwydo mewn i sut bydd Gwasanaethau Fferyllol Cymunedol yn cael eu darparu yn lleol.

Mae'r arolwg yn cau ar 13 Rhagfyr 2020; mae modd cwblhau'r arolwg arlein: https://www.surveymonkey.co.uk/r/KX6PT89

**Cytunwyd i gwblhau'r arolwg.**

8.4 **Dywedodd DC Gareth Jordan, Heddlu Dyfed-Powys** eu bod yn ynwybodol bod hysbysiadau ffug y Post Brenhinol yn cael eu hanfon trwy e-bost. Roedd y sgam yn cynnwys e-bost yn honni fod y Post Brenhinol wedi ceisio danfon parsel ac wedi methu ac yn gofyn am daliad o £1.99 i anfon unwaith yn rhagor. Roedd arddull yr e-bost a'r ffi isel y sgam yn ymddangos yn gyfreithlon. Cyfeiriodd yr ebost y defnyddiwr at dudalen swyddogol yn gofyn iddo/iddi ddatgelu eu manylion banc. PEIDIWCH Â CHLICIO AR Y DDOLEN.

Dylid anfon yr e-bost at report@phishing.gov.uk (mae'r gwasanaeth adrodd hwn yn cael ei weinyddu gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'i nod yw gwaredu â gwefannau ffug).

**Cytunwyd y byddai'r Gyngh. Laura Jones yn cynnwys y gwybodaeth uchod ar lwyfannau cymdeithasol lleol er mwyn rhybuddio'r cyhoedd o'r sgam hwn.**

8.5 **Rhybudd:** Galwadau ffôn ffug i breswylwyr yn esgus mai aelodau'r Heddlu Dyfed Powys sy'n galw i'w rhybuddio bod gweithgaredd twyllodrus ar eu cerdyn banc ac yna'n gofyn am wybodaeth bersonol neu hyd yn oed PIN yr unigolyn i'w gwirio. Roeddynt yn ceisio cyflawni'r hyn a elwir yn Dwyll Courier. Cynigant bod rhywun yn galw i godi'r cerdyn banc yr unigolyn dan sylw er mwyn arbed yr angen i gysylltu â'u banc neu orsaf heddlu leol.

**Cyngor gan Heddlu Dyfed Powys:** "Troseddwyr yw'r galwyr hyn a fydd yn ymroi i ennill eich ymddiriedaeth gan wneud i chi feddwl eu bod yn swyddogion heddlu. Peidiwch â sgwrsio â hwynt a gadael iddynt drefnu casglu cardiau banc. Rhowch y ffon i lawr. Blociwch y rhif a alwyd ohono. Adroddwch y sgam at sylw eich ffrindiau a'ch cymdogion a'r heddlu lleol trwy gysylltu â nhw ar eu tudalen we ar-lein neu 101.

8.6 **Fel rhan o'r ymchwil ar gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb** a hawliau dynol yng Nghymru, anfonwyd y cysylltiadau a'r atodiadau canlynol gyda chais i'r Cyngor Cymuned gwblhau'r arolwg, os yn bosibl. Dolen yr Arolwg: https://www.surveymonkey.co.uk/r/RLTKS7 (Saesneg)

**Dolen yr Arolwg:**

https//www.surveymonkey.co.uk/r/K2FYNQV (Cymraeg)

8.7 **Gwybodaeth a dderbyniwyd dan law Ben Lake AS. Grwp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi.**

Mae Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi (LAG), sy'n gweithredu'r cynllun LEADER yng Ngheredigion, yn chwilio am syniadau arloesol gan unigolion, grwpiau, busnesau a sefydliadau.

Mae gan Cynnal y Cardi gyllid refeniw i gefnogi datblygiad prosiect - yn enwedig gyda ffocws ar brofi a threialu syniadau; gwerthuso; astudiaethau cwmpasu a dichonoldeb; hwyluso; ymgynghori a hyfforddi a mentora.

Gyda ffocws o'r newydd, mae syniadau'n cael eu ceisio ar sut y gellir gwneud Ceredigion, yn enwedig ei threfi marchnad yn ardaloedd unigryw ble mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld, a sut y gellir gwneud mwy o asedau a thraddodiadau diwylliannol Ceredigion fel y gellir cefnogi cymunedau a'r economi leol.

Mae darparu cyfleoedd i bobl ifanc hefyd yn allweddol ac anelir i greu diwylliant o entrepreneuriaeth, gan ddarparu cyfleoedd newydd i bobl wireddu eu huchelgeisiau o fyw a gweithio yng Ngheredigion. Hefyd bwriedir i gryfhau a chefnogi cymunedau

lleol, gan helpu i archwilio dulliau newydd; defnyddio cyfleoedd technoleg ddigidol a gweithio tuag at ddyfodol carbon isel.
**Cytunwyd y byddai'r Gyngh. Clare Hyghes yn cysylltu â thîm Cynnal Y Cardi i drafod syniadau ac i gael mwy o wybodaeth. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw'r 18fed o Ionawr 2021.**

**8.8 Gohebiaeth pellach: er gwybodaeth.**

**9. CYLLID**
**TALIADAU**

**9.1 Sedd Siglen Hwyaden Fach Rwber** x 2 £99.90 (gan gynnwys TAW)
**9.2 Diheintydd, Sebon a Gel Llaw** £76.71 (gan gynnwys TAW)
**9.3 Cyflog y Clerc Hydref 2020**: £193.83 (Cyflog Gross).
**9.4 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir. *Mae CSC wedi gofyn am wybodaeth pellach cyn rhyddhau'r arian.*
**9.5 Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfod y dyfodol.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Adroddodd y Gyngh. Clare Hughes ei bod wedi darllen at FB** gais i holl bwyllgorau lleol yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl iddynt gyfrannu'r gost o blethdorch pabi at goffrau'r Lleng Brydeinig Frenhinol gan na fu'n bosibl i ymwneud â chasgliadau wyneb yn wyneb ym 2020, oherwydd y Pandemig Covid-19.
**11.2 Tynnodd y Gyngh. Laura Jones** sylw aelodau at y gyfradd uchel o dai sy'n cael ei gwerthu ar hyn o bryd yng Ngheredigion i unigolion y tu allan i'r sir (weithiau at ddibenion ymddeol neu ail-gartref). Roedd hyn yn aml yn prisio pobl ieuainc allan o'r farchnad, yn eu hannog i beidio ag aros yn yr ardal a chyfrannu at yr economi leol. Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn cadw at ganllawiau'r Cynllun Datblygu Lleol gan ymroi i gadw Pobl Ieuainc yn y sir wrth gynnig Cartrefi Fforddiadwy. Llywodraeth Cymru oedd yn aml yn gwneud y penderfyniad. Teimlwyd y dylid gwneud pob ymdrech i gadw Pobl Ieuainc mewn ardaloedd gwledig a sicrhau mynediad at dai fforddiadwy.
**11.3 Golau'r Gofeb Rhyfel y Bont**: heb fod yn gweithio. Cytunwyd i geisio gwasanaeth Mr Wyn Evans.
**11.4 Coeden Nadolig y Pentref:** cytunwyd i gysylltu â'r Pwyllgor Nadolig (Clare/ Mair/Jean/ Alun/Angharad). Ystyriwyd prynu dwy goeden Nadolig pe bai arian ar gael. (Adam, Pontrhydygroes)

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.50pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Nos Iau 21ain Ionawr 2021 @7pm i gynnwys Argymhellion ar gyfer y Gyllideb ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2021-22. Lleoliad: Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen neu Cyfarfod Rithiol yn unol â Chanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru.**

================================================= (Arwyddwyd / Dyddiad)